

Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion

Perfformiad ariannol cyffredinol GIG Cymru

(i) Rydym yn pryderu ynghylch sefyllfa ariannol GIG Cymru sy'n parhau i waethygu. Serch hynny, rydym yn cydnabod ymdrechion Adran GIG Cymru i ymchwilio i'r rhesymau y tu ôl i'r duedd hon i waethygu ac yn annog cyrff y GIG yng Nghymru i lunio cynlluniau adfer cyraeddadwy. Rydym yn argymhell bod cyrff y GIG yn cydweithio'n agos gydag Adran GIG Cymru er mwyn sicrhau bod cyllid GIG Cymru yn cael ei reoli'n dynn. Mae hyn yn allweddol i les GIG Cymru yn y dyfodol ac ar gyfer y rhai sy'n dibynnu ar y gwasanaeth.

Ymateb

Cytuno. Mae Adran Cyllid y GIG a'r Swyddfeydd Rhanbarthol yn cydweithio'n agos gyda'u partneriaid yn y GIG i weld pam fod y sefyllfa fel y mae ac ystyried pa gamau ellid eu cymryd i wella'r sefyllfa. Mae'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG hefyd yn cydweithio i chwilio am feysydd lle gellir cymryd y camau angenrheidiol.

Gofynnwyd i'r cymunedau iechyd ddatblygu Rhaglenni Newid ac Effeithlonrwydd Strategol (SCEP) i gael gwared ar y diffygion ariannol erbyn mis Mawrth 2006. Caiff hyn ei gyflawni drwy gyfuniad o arbedion ariannol a benthyciadau (i glirio'r diffyg a fydd ar ar ôl unwaith y bydd y camau cynilo wedi cael effaith). Bydd angen ad-dalu'r benthyciadau hyn erbyn mis Mawrth 2009.

(ii) Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu cyrff y GIG yng Nghymru wrth iddynt ymdopi â'r costau a'r galw cynyddol am gyffuriau gofal sylfaenol. Serch hynny, mae'n bwysig sicrhau bod y costau, yn gyffredinol, yn parhau o fewn y cymorth ariannol a roddwyd gan y Cynulliad. Pwysleisiwn bwysigrwydd rôl y Byrddau Iechyd Lleol wrth sicrhau bod y cymorth ariannol yn cael ei reoli'n effeithiol er mwyn sicrhau bod presgripsiynau safonol, cost effeithiol yn cael eu darparu mewn practisau cyffredinol, ac rydym yn argymhell bod Adran GIG Cymru yn monitro canlyniadau'r gwaith yn ofalus.

Ymateb

Cytuno. Sefydlodd y Gweinidog Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) i roi cyngor effeithiol, effeithlon a thryloyw i'r Cynulliad ynghylch rheoli a rhagnodi meddyginiaethau mewn ffordd strategol. Mae hynny'n galluogi'r Cynulliad i roi

canllawiau ar ddull cyffredin o ymdrin â rhagnodi ar draws Cymru ond gan ganiatáu hyblygrwydd lleol.

Yn ogystal â gwaith yr AWMSG, mae Adran GIG Cymru wedi cyflwyno gofyniad i'r Byrddau Iechyd Lleol gwrdd â saith o dargedau rhagnodi lefel uchel erbyn mis Ebrill 2005 fel rhan o'i dargedau rheoli perfformiad (Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid (SAFF)) ar gyfer 2004-5. Bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn adrodd ar eu perfformiad ar sail y SAFF bob tri mis.

(iii) Rydym yn falch o weld bod gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin gynllun adfer cytûn a'u bod yn gwneud cynnydd ar sail y cynllun. Rydym yn annog Adran GIG Cymru i barhau i fonitro perfformiad y cyrff iechyd unigol yn barhaus ar sail y cynlluniau adfer cytûn er mwyn medru rhoi rhybudd cynnar pan fydd sefydliad yn methu â chyrraedd disgwyliadau, ac er mwyn sicrhau bod camau adfer yn cael eu cymryd.

Ymateb

Rydym yn derbyn ac yn cytuno ei bod yn hanfodol monitro sefydliadau iechyd os ydym am sicrhau cydbwysedd ariannol erbyn 2006.

Mae pob sefydliad iechyd rhanbarthol yn cyflwyno ffurflenni monitro misol ac fe'u llofnodir gan y Cyfarwyddwyr Cyllid. Caiff y rhain eu hadolygu gan y Swyddfa Ranbarthol ac anfonir crynodeb at Adran Cyllid y GIG. Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff yr adolygiad ei drafod gan y Pennaeth Cyllid Rhanbarthol a Chyfarwyddwr Cyllid y GIG.

Mae'r Pennaeth Cyllid Rhanbarthol yn cwrdd yn ffurfiol â Chyfarwyddwyr Cyllid y sefydliadau iechyd rhanbarthol bob dau fis, ond maent yn cwrdd yn anffurfiol yn amlach na hynny.

(iv) Credwn ni ei bod hi'n annerbyniol bod arian y gellir ei wario ar ddarparu gofal iechyd yng Nghymru yn cael ei wastraffu gan y Bwrdd Ymarfer Deintyddol. Disgwyliwn i Adran GIG Cymru sicrhau bod unrhyw arian a ddarperir i'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol yn y dyfodol yn cael ei reoli'n effeithiol ac y ceir llwyddiant wrth fynd i'r afael ag unrhyw gollodion o ran incwm sy'n deillio o gleifion sy'n honni ar gam bod ganddynt hawl i gael eu heithrio rhag talu.

Ymateb

Gan nad oes gan y Cynulliad y grym i gyfarwyddo'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol i gyflawni'r swyddogaeth hon, rydym yn cynnal trafodaethau ynghylch galluogi'r Adran

Iechyd i gyfarwyddo'r Bwrdd i wirio cleifion sy'n honni bod ganddynt hawl i gael eu heithrio rhag talu.

(v) Nodwn y gwelliant cyffredinol ym mherfformiad talu prydlon ond rydym yn pryderu ynghylch yr amrywiaeth eang ym mherfformiad y cyrff GIG unigol. Pwysleisiwn yr angen i bob corff GIG gyrraedd y targed o ran perfformiad yn y dyfodol, yn enwedig ar ôl ailstrwythuro. Rydym hefyd yn atgoffa cyrff GIG o'r ffaith bod y targed yn ymwneud â nifer y biliau a dalwyd yn hytrach na gwerth y biliau, er mwyn sicrhau nad anghofir am y cyflenwyr bach.

Ymateb

Un o'r rhesymau am y perfformiad amrywiol yn 2002-03 oedd bod naw o Ymddiriedolaethau'r GIG yn defnyddio system ariannol newydd. Arweiniodd hyn at berfformiad gwael mewn rhan achosion ar ddechrau'r flwyddyn, ond cafwyd gwelliant cyffredinol wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Mae'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cael gwybod erbyn hyn bod perfformiad talu prydlon yn darged ariannol ffurfiol ar gyfer pob sefydliad o 2003-04 ymlaen, a bydd yn cael ei fesur ar sail nifer yr anfonebau a dalwyd. Erbyn hyn, mae Swyddfeydd Rhanbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro perfformiad ar sail y targed hwn. Bydd yn rhaid i'r sefydliadau a fydd yn methu cyrraedd y targed hwn lunio cynlluniau gweithredu i ddangos sut y byddant yn gwella perfformiad.

Ailstrwythuro

(vi) Rydym yn croesawu ymateb cadarnhaol Adran GIG Cymru i'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ac yn enwedig gwaith craffu manwl yr Adran ar y costau rhedeg a throsglwyddo tybiedig ar gyfer y strwythur newydd. Disgwyliwn i'r Adran barhau i gadw llygad ar gostau rhedeg y strwythur newydd a'r costau trosglwyddo o ran ailstrwythuro ac edrychwn ymlaen at dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf pan fydd ar gael.

Ymateb

Mae Adran GIG Cymru yn parhau i gadw llygad ar gostau rhedeg y strwythur newydd a'r costau trosglwyddo fel rhan o'r gwaith ehangach o fonitro gwariant o fewn GIG Cymru.

Bydd y Pwyllgor yn cael clywed eto am gostau rhedeg y strwythur newydd a chost wirioneddol yr ailstrwythuro.

Ymddeol yn gynnar

(vii) Rydym yn croesawu'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Adran GIG Cymru ar delerau diswyddo ac ar ddrafftio contractau cyflogaeth newydd. Er ei bod hi'n bwysig sicrhau bod y rhai sy'n ymddeol o ganlyniad i salwch yn cael eu trin yn deg a gydag urddas, y mae angen sicrhau hefyd bod modd amddiffyn y setliadau a wneir yn gyhoeddus. Rydym yn argymhell felly bod Adran GIG Cymru yn parhau i fonitro costau ymddeol yn gynnar, yn enwedig ar ôl yr ailstrwythuro yn ddiweddar.

Ymateb

Mae Adran GIG Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â'r GIG yng Nghymru i sicrhau nad yw unigolion sy'n gymwys i ymddeol yn gynnar yn derbyn mwy na'r hyn y mae ganddynt yr hawl gyfreithiol i'w dderbyn. Mae'r Adran hefyd yn parhau i gadw golwg ofalus ar gostau ymddeol yn gynnar ledled y gwasanaeth.

Twyll

(viii) Rydym yn croesawu'r cynnydd parhaus a wneir gan sefydliadau'r GIG yng Nghymru er mwyn codi ymwybyddiaeth am dwyll. Rydym yn arbennig o falch i fedru nodi'r lleihad yn lefel y twyll ymysg cleifion fferyllol a amcangyfrifwyd gan Wasanaeth Gwrth-Dwyll y GIG, a'r camau sy'n cael eu cymryd i nodi lefelau twyll ymysg cleifion deintyddol ac ophthalmig a chontractwyr yng Nghymru. Rydym yn annog Adran GIG Cymru i barhau i weithio gyda Gwasanaeth Gwrth-Dwyll y GIG er mwyn sicrhau bod systemau rheoli addas yn cael eu gweithredu, yn enwedig wrth ddarparu'r gwasanaeth, er mwyn lleihau'r risg o dwyll.

Ymateb

Cytuno. Bydd Adran GIG Cymru yn parhau i gydweithio'n agos iawn â Gwasanaeth Gwrth-dwyll y GIG ac mae wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau Ymwybyddiaeth o Dwyll. Cynhaliodd tîm y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Gweithredol (Cymru) a'r Arbenigwyr Gwrth-dwyll Lleol perthnasol 16 o ddigwyddiadau hyrwyddo mewn ysbytai aciwt mawr er mwyn cynghori staff a chleifion y GIG ar eu hawl i gael cymorth, i roi enghreifftiau o dwyll yn erbyn y GIG ac i egluro eu swyddogaeth o ran rhwystro twyll ac adrodd arno.

Ar hyn o bryd, mae Gwasanaethau Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch y GIG yn cynnal ymarfer ar gleifion a chontractwyr optegol Cymru. Cyhoeddir canlyniadau'r ymarfer

hwnnw yn fuan. Cynhelir ymarfer ar gleifion a chontractwyr deintyddol yng Nghymru y flwyddyn nesaf.

Nyrsys Asiantaeth

(ix) Rydym yn parhau i bryderu am gostau cynyddol staff asiantaeth, a'r effaith y gallai gor-ddibynnu ar staff dros dro ei gael ar ansawdd y gofal i gleifion. Mae angen cadw staff o safon uchel yn y GIG, ac mae'n peri pryder mai'r staff mwyaf profiadol sydd fel arfer yn gadael y GIG i fod yn nyrsys banc neu asiantaeth. Rydym yn annog Adran GIG Cymru i edrych yn fanwl ar y rhesymau pam fod pobl yn gadael ac i ystyried sut gallant annog staff i aros.

Ymateb

Y prif resymau pam y mae staff y GIG yn gadael yw bod asiantaethau yn cynnig gwell cyflogau ac arferion gwaith mwy hyblyg. Hefyd, ceir peth symud rhwng Ymddiriedolaethau, sy'n creu swyddi gwag, ond mae hefyd yn hwyluso'r broses o ddatblygu gyrfa wrth i staff symud at gyflogwyr eraill o fewn y GIG.

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn mae pob Ymddiriedolaeth wedi datblygu strategaethau Recriwtio a Chadw a gaiff eu gweithredu yn 2003/2004. Er mwyn cwrdd â her 'cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith' mae rhai Ymddiriedolaethau wedi datblygu oriau blynyddol fel ffordd hyblyg o drefnu oriau gwaith. Ar lefel leol, mae crèches a chynlluniau talebau gofal plant wedi'u sefydlu. Bydd y Cynulliad yn gosod targedau ar gyfer yr Ymddiriedolaethau o ran gostwng y defnydd o nyrsys Asiantaeth.

Mae'r Cynulliad wedi ariannu nifer o fentrau Dychwelyd i Ymarfer, lle rhoddir ffioedd addysg a chyfundaliadau i nyrsys a bydwagedd sydd wedi gadael y proffesiwn ond sydd am dychwelyd. Mae ymweliadau tîm 'Arferion Da' Adnoddau Dynol wedi'u cynnal yn y rhan fwyaf o Ymddiriedolaethau Cymru a chaiff arferion da o ran nyrsys Asiantaeth eu rhannu i bob Ymddiriedolaeth. Ceisiwyd cael staff parhaol o dramor hefyd os oedd hynny'n ymarferol.

Esgeuluster clinigol

(x) Rydym yn pryderu ynghylch y cynnydd sylweddol pellach mewn esgeuluster clinigol yn ystod 2001-02 a gyfrannodd at ddiffyg cyffredinol y GIG yn ystod y flwyddyn honno. Rydym y falch o nodi camau y mae Adran GIG Cymru yn eu cymryd mewn ymateb i'r adolygiad allanol o

Gronfa Risg Cymru ac yn argymhell eu bod yn parhau i fonitro costau esgeuluster clinigol yn sgil canfyddiadau'r adolygiad.

Ymateb

Rydym yn derbyn hyn. Cymeradwyodd y Gweinidogion yr adroddiad a'r argymhellion terfynol ym mis Ebrill 2003. Nod argymhellion yr arolygiad oedd gwella gweithdrefnau monitro a rhagweld Cronfa Risg Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol amdani wedi gwella'i threfniadau atebolrwydd ac arolygu. Mae cynigion eraill yn y broses o gael eu gweithredu, gan gynnwys mesurau i gyfyngu ar effaith hawliadau lluosog sy'n deillio o un achos ar ymddiriedolaethau unigol ac i amddiffyn y Gronfa rhag hawliadau a allai fod yn rhai mawr iawn, er enghraifft risgiau eiddo, erbyn diwedd 2004.

Yn 2002-03, mae'r trefniadau diwygiedig hyn wedi helpu i sicrhau bod gwariant y Gronfa dros £10 miliwn yn llai nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Mewn ymateb i'r adolygiad allanol, mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo dau gynllun peilot ar gyfer datrys anghydfodau esgeuluster clinigol. Mae gweithgor wedi'i sefydlu i lunio cynigion manwl ar gyfer y ddau gynllun peilot ac mae wedi cwrdd saith gwaith. Y gobaith yw y bydd y cynlluniau peilot yn cael eu cyflwyno yn 2004.